Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Mynydd Llandygai
# Ysgol Bodfeurig
# Tregarth
# Bangor
# LL57 4RN

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Mynydd Llandygai. Mae'n cwrdd mewn ystafell yn Ysgol Gynradd Bodfeurig, ger Tregarth, yng Ngwynedd. Mae'r lleoliad yn agor am bedwar bore'r wythnos ac mae yno dri o ymarferwyr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu derbyn hyd at 12 o blant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'n derbyn plant rhwng dwy a hanner a thair mlwydd oed.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae ychydig ohonynt yn siarad Cymraeg fel mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 1998. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Medi 2013 a gan Estyn ym mis Mawrth 2010.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella’r lleoliad | Da |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n gwella dysgu’r plant
- disgwyliadau uchel yr ymarferwyr yn sicrhau her gyson ar gyfer y plant
- ymarferwyr yn gweithio gyda’i gilydd yn bwrpasol
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol
- gofal gwyliadwrus yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu llwyddiannus
- ymddiriedaeth amlwg rhwng y plant a’r oedolion
- ardaloedd dysgu ac adnoddau yn ennyn diddordeb ac ysgogaeth y plant yn bwrpasol

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella’r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir i’r gwaith dyddiol a thymor hir
- systemau hunanarfarnu rheolaidd yn arwain at osod targedau gweithredol
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol
- yr arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin
- y pwyllgor rheoli yn sicrhau cefnogaeth gyson
- ganddo bartneriaethau pwrpasol â rhieni, gofalwyr a’r ysgol leol
- arweinwyr yn gwneud defnydd llwyddiannus o gyllid a grantiau i greu gwelliannau yn y ddarpariaeth a’r adeilad

## Argymhellion

A1 Gwella'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau corfforol plant yn yr awyr agored

A2 Defnyddio asesiadau dyddiol yn fwy effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A3 Addysgu'r plant yn effeithiol am wahanol ddiwylliannau'r byd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol, sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio profiadau dysgu defnyddiol, sy'n targedu anghenion a diddordebau'r plant yn synhwyrol. Enghraifft effeithiol yw'r defnydd pwrpasol o'r ardal leol wrth ddysgu am anifeiliaid y fferm.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n gyson i ddarparu gweithgareddau cyffrous a diddorol i'r plant ddatblygu fel dysgwyr annibynnol, yn enwedig tu mewn i'r adeilad. Maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol trwy chwarae rôl yn y caffi ac ymchwilio â chwyddwydrau am nodweddion sy'n perthyn i blanhigion y môr a chregyn gwahanol.

Mae'r holl ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant leisio eu syniadau personol i ddatblygu'r gweithgareddau ymhellach. Mae hyn yn cynnwys sgriblo siapiau a marciau'n annibynnol ar y wal tu allan â sialc a gwrando'n astud ar synau gwahanol ar gryno ddisg. Mae gweithgareddau o'r math hwn yn ychwanegu'n gadarnhaol at frwdfrydedd dyddiol y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n gydwybodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCH) a meddwl y plant yn gynyddol. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Enghreifftiau ymarferol dda o hyn yw'r cyfleoedd i blant greu tentaclau i octopws allan o does a thrafod llenwi a gwacáu bwcedi â thywod i adeiladu cestyll.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio ystod o offer fel camerâu, chwaraewr cryno ddisg, cyfrifiadur a llechi electronig. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn effeithiol, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau corfforol y plant. Fodd bynnag, er bod ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd iddynt ddringo cyfarpar anturus a chwarae'n fywiog ar y buarth, nid yw'r gweithgareddau hyn wedi eu cynllunio'n drwyadl i ddatblygu medrau corfforol y plant yn bwrpasol.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol iawn i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau da o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol. Maent yn herio a holi'r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu ac mae eu holi meddylgar yn ysgogi'r plant i ymateb yn frwdfrydig. Mae llawer o'r plant yn ymateb â geiriau ag ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, trafod tywydd mynyddoedd Eryri gerllaw, creu cawl a phobi cacennau.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau i'r pentref a ffermydd lleol. Mae ymwelwyr fel hylenyddion deintyddol, ffermwyr a swyddogion ailgylchu yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn cydweithio'n effeithiol.

Mae disgwyliadau uchel gan yr ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio'r plant yn gyson trwy dasgau ffocws a pharhaus. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysgogi a'u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant y plant yn uchel a'u awydd i wella'u gwaith yn frwd. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau i greu golygfa môr mewn potel gyda gwymon, gliter, cregyn, olew, dŵr a lliw bwyd.

Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd i blant arbrofi trwy gymysgu dŵr a thywod i adeiladu wal o flociau yn yr ardal adeiladu.

Anogir y plant yn gyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol gan yr holl ymarferwyr. Maent yn defnyddio holi'n bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Gwneir hyn wrth drafod nodweddion gwymon yn dorfol, penderfynu ar gapasiti bwced o dywod mewn pâr a chwblhau jig-sos yn annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil

y Cyfnod Sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol, yn y llyfrynnau cofnodi newydd, yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio asesiadau dyddiol yn ddigon cyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae'r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae adroddiad llawn gwybodaeth ar gael i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau grŵp yn bwrpasol er mwyn i'r plant ystyried teimladau ei gilydd. Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant feddwl, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae hyn yn creu amgylchedd myfyriol, wrth i'r plant eistedd i wrando ar stori, distewi wrth ddehongli synau ar gryno ddisg a dweud diolch am eu bwyd. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro yn gwrtais wrth iddynt olchi dwylo a llinellu am lestri cyn bwyta ac yfed byrbrydau. Maent yn yfed llaeth a dŵr yn ofalus o amgylch y byrddau bwyd a rhannu ffrwythau a bisgedi yn gyfeillgar. Mae'r system hon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod amser byrbryd.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig, tiniau ac i gompostio bwyd. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu gamau gormesol. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel gyda'r drysau ar glo a'r ardal allanol ar dir yr ysgol yn gaeëdig Mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da am y plant pan fyddant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn nodi eu mannau cychwyn yn drylwyr trwy ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen. Drwy hyn, mae'r lleoliad yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen, yn enwedig plant ag anawsterau llefaru. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu eu hanghenion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant gyfle cyfartal i'r holl meysydd dysgu a'r offer. Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus trwy drafodaethau dyddiol. Mae ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol, gofalus a sensitif.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy ei weithgareddau bob dydd a'r agwedd a fabwysiadir gan yr ymarferwyr. Yn gyffredinol, mae pawb yn rhoi pwyslais priodol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn dathlu Flwyddyn Newydd y Tsieiniaid yn flynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn ddigon effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n llwyddiannus ar y cyfan i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus a thasgau ffocws i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau'n hygyrch i bob un o'r plant, ac yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn dda ac mae'n ddiogel. Mae tir ac adnoddau allanol yr ysgol ar gael i'r lleoliad, sy'n cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, cyfarpar i ddringo a buarth i redeg o gwmpas a gyrru tractorau, yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau'r ardal leol yn synhwyrol, sef y pentref a'r ffermydd cyfagos.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n bwrpasol ar sicrhau darpariaeth effeithiol. Mae hyn yn bodloni anghenion plant ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n llwyddiannus. Mae'r arweinydd yn rheoli tîm o ymarferwyr ymroddgar yn deg ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ran yr ymarferwyr a'r plant. Llwydda i'w cymell tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol.

Mae'r arweinydd yn brofiadol ac yn llywio cyfeiriad cadarnhaol i arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad. Mae hyn yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus. Mae gweledigaeth yr arweinydd yn sicrhau bod y cynllunio, yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys datblygu arferion asesu i nodi mannau cychwyn plant unigol drwy ddefnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae'n ffocysu ar gofnodi asesiadau dyddiol yn llyfrynnau'r awdurdod lleol a chreu newidiadau buddiol i'r adeilad i gydymffurfio â gofynion lles. Mae hi hefyd yn canolbwyntio'n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd, i wella medrau'r plant.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n ddyddiol fel tîm. Mae'r arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd yn sefydlog. Mae'r system hon yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr, yn enwedig wrth ddarparu geirfa cyfoethog a phatrymau iaith yn y Gymraeg. Mae'n diffinio gwahanol rolau a chyfrifoldebau'r ymarferwyr yn bwrpasol trwy werthusiadau blynyddol.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau a monitro'r cyllid yn gyson. Mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r lleoliad yn briodol i gynnal arferion cyson a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r hunanarfarnu'n cymryd ystyriaeth synhwyrol o farn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, trwy ddefnyddio holiaduron a chynnal trafodaethau cyson. Mae hyn o fudd i'r lleoliad ac yn sicrhau darlun llawn o'r ddarpariaeth a'r systemau rheoli. Mae system meintiol yr awdurdod lleol yn pontio'n effeithiol rhwng yr hunanarfarniad a'r cynllun datblygu. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r lleoliad yn bwrpasol ac mae'r cynllun datblygu yn nodi'r meysydd datblygu yn effeithiol.

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad, sy'n dechrau'n flynyddol o system meintiol yr awdurdod lleol. Mae'r arweinydd a'i chydweithwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant, y ddarpariaeth a'u rolau dros gyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cydweithio effeithlon a chydwybodol hwn, ynghyd â thrafodaethau a chyfarfodydd yr ymarferwyr, yn cyfrannu'n gadarn at y broses yn llwyddiannus.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Maent yn barod i dderbyn syniadau newydd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. O ganlyniad, mae'r cyngor ar sut i wella'r cofnodi dyddiol o gyflawniadau plant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr asesu. Yn ogystal, mae'r defnydd synhwyrol o broffil y Cyfnod Sylfaen yn canolbwyntio ar fannau cychwyn y plant a'u cynnydd yn bwrpasol.

Mae'r arweinydd yn cymryd camau cadarn i gynnal systemau rheolaidd a rhoi newidiadau ar waith drwy gynllunio'n weithredol. Mae hi a'r pwyllgor rheoli'n blaenoriaethu gwariant yn unol â'r camau a nodwyd ar gyfer gwella. Gwneir hyn yn llwyddiannus trwy fabwysiadu strategaethau gwahanol a derbyn cyngor gwerthfawr gan eraill. Enghreifftiau diweddar o hyn yw datblygu'r ystafell a'r ardaloedd dysgu a defnyddio grantiau gan asiantaethau allanol er lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r phartneriaid i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae ymarferwyr yn eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd.

Gan bod y lleoliad yn cwrdd yn yr ysgol, mae ganddi gyswllt cadarnhaol iawn â'r ysgol. Mae'r lleoliad yn ymuno â gweithgareddau yn yr ysgol fel arddangosfa ddiweddar o adar ysglyfaethus. Mae athrawes y dosbarth meithrin yn ymweld â'r lleoliad ac mae'r plant yn ymweld â dosbarth meithrin yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio'r plant yn dda. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn effeithiol ac yn fuddiol i'r plant wrth iddynt ymgynefino â'r ysgol.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r bartneriaeth gadarnhaol sy'n bodoli ac mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau cymunedol i godi arian a chefnogaeth buddiol wrth gynnig am nawdd a grantiau perthnasol. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy'n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, yr iaith Gymraeg, datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen ac amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Gwneir hyn trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau'n effeithiol. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant.

Mae arferion arwain pwrpasol yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, sefydlwyd cymuned ddysgu gadarnhaol, sydd â diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn sicrhau profiadau dysgu pwrpasol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn greadigol i gefnogi dysgu. Mae hyn yn cynnwys newid cynllun yr ystafell yn achlysurol i ysbrydoli'r plant wrth iddynt ymroi i wahanol themâu.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb a grantiau'n bwrpasol. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn effeithiol. Ceir gwariant gofalus, gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Mae'r pwyllgor yn creu gwelliannau cyson trwy drafod a blaenoriaethu gwariant yn bwrpasol, fel yr ystafell les newydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a’r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |